

Annwyl Gadeirydd/Clerc,

Peilot o Becyn Hunanasesu Cyngorau Cymuned a Thref - Mynegiant o Ddiddordeb

Rydym eisiau rhoi gwybod ichi am gyfle i helpu profi a datblygu'r pecyn asesu ar gyfer cyngorau cymuned a thref fydd ar gael cyn bo hir yng Nghymru.

Bu Un Llais Cymru, yr SLCC a Llywodraeth Cymru – gyda chymorth gan Archwilio Cymru – yn datblygu pecyn newydd pwrpasol i helpu eich cyngor i gadw at ofynion llywodraethiant a myfyrio'n rheolaidd ar sut mae'n gwasanaethu ei gymuned.

Ar hyn o bryd mae dwy elfen i'r pecyn:

- Gwiriad iechyd llywodraethiant a rheolaeth ariannol er mwyn asesu a oes gan eich cyngor drefniadau a pholisïau llywodraethiant ac ariannol sylfaenol ar waith (Rhestr wirio i alluogi eich cyngor i roi tic wrth y gofynion hynny mae'n eu bodloni a'r rhai y mae angen iddo weithredu arnynt)
- Hunan-asesiad llywodraethiant a rheolaeth ariannol er mwyn galluogi eich cyngor i fyfyrion ar sut mae'n rheoli ei gyllid ac yn llywodraethu ei hunan a sut mae'n gweithio yn y gymuned leol a pha gamau allai eu hystyried i wneud ei waith yn fwy effeithiol.

Cyn ei rannu gyda'r sector i'w ddefnyddio, rydym yn chwilio am tua 50 o gynghorau i gymryd rhan mewn peilot i roi 'prawf ffordd' i fersiwn ddatblygol o'r pecyn mewn sefyllfa cyngor go iawn. Bydd eich adborth yn helpu llunio'r cynnyrch gorffenedig. Rydym eisiau rhoi digon o amser i gynghorau edrych arno, ac mae'n debyg felly y bydd y cyfnod profi yn yr hydref, yn arwain at ddiwedd y flwyddyn. Byddem wedyn yn gwahodd cynrychiolwyr i fynychu cyfarfod grŵp trafod yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd er mwyn rhoi eu hadborth inni.

Yn naturiol, bydd peilot gynghorau yn derbyn gwybodaeth a chefnogaeth.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, rhowch wybod i Paul Egan pegan@unllaiscymru.cymru fod gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r peilot (y cyfan sydd ei angen arno yw enw'r cyngor a'r person cyswllt **erbyn 31 Hydref 2021**). Fel y byddech yn disgwyl ni fydd modd i Paul drafod y manylion gyda chi ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau ar ei amser. Yn naturiol, bydd mwy o wybodaeth yn cael ei darparu i'r cynghorau hynny a ddewisir i gymryd rhan yn y peilot.

Yn gywir,



Lyn Cadwallader
Prif Weithredwr Un Llais Cymru

Yn gywir,



Rob Smith
Prif Weithredwr SLCC